**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**4/7/23**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2524 Sylwadau'r Cadeirydd:** Wrth groesawu'r Cynghorwyr, llongyfarchwyd rai ar gyrraedd penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Huw Antur ar ei ymddeoliad o'i swydd fel Pennaeth Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, a llongyfarchwyd ef ymhellach ar ei swydd newydd yng Nghyngor Gwynedd fel Swyddog Adfywio Bro. Diolchodd i bawb a fu'n ymwneud ag agoriad swyddogol Cae Llan a dymunodd yn dda i'r Clwb Pêl-droed yn y dyfodol.

**2525 Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Dewi Wyn Jones.

**2526 Datganiadau o fuddiant:** Derbyniwyd datganiadau gan Euros Roberts, Huw Antur, Alwyn E Jones a'r Cynghorydd Alan Jones Evans ym mater 2531iii, gan eu bod yn aelodau o bwyllgor Menter Gymunedol Llanuwchllyn.
Datganodd Alwyn E Jones buddiant ym mater 2534 gan ei fod yn aelod o bwyllgor rheoli'r Theatr.

**2527 Cofnodion cyfarfod 6/6/23:** Cadarnhawyd eu cywirdeb**.**

**2528 Materion y Clerc:**

i. Derbyniwyd ymateb i gais y Cyngor am wybodaeth am y Triathlon eleni.
ii. TG y Cyngor: adroddodd Huw Antur ar ran Pwyllgor y Neuadd fod y Trysorydd wedi prynu teclyn SIM-yn-unig a fydd yn rhedeg ar gost o £20 y mis. Bydd mater o dalu am hwn yn fisol yn codi yn y Cyngor yn y dyfodol. Mae cais wedi mynd at MAB am osod sgrin yn disgyn o'r llwyfan a thaflunydd. Mae ymholiadau wedi eu gwneud am sgrin 70" a ellir ei symud.
iii. Camerâu ANPR – mae aelodau o'r Cyngor yn paratoi cais am grant.

**2529 Cyngor Gwynedd** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd a soniodd am fwriad Adran y Priffyrdd i osod rheiliau pren tu ôl a thu blaen ardal wrth y Bont Newydd er mwyn diogelu is-adeiledd Cyngor Gwynedd yn y fan honno.

Mae amheuon fod cwlfert wrth Bronnant angen ei atgyfnerthu a bydd arolwg o'r ardal gyda chamerâu.

Er fod y gwaith cynllunio wedi ei wneud, nid oes cyllid ar hyn o bryd i wella'r palmant o Bronwylfa at y Neuadd. Mae'r trigolion yn ardal Bronwylfa yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i sicrhau nad oes cerrig yn amharu ar ddiogelwch defnyddwyr y palmant.

Mae Iwan Trefor yn bwrw ymlaen gyda'r cynlluniau i wella Llwybr Tegid ac i osod mesurau tawelu traffig yn Stryd yr Eglwys.

Tynnwyd sylw at yr angen i dorri tyfiant ar ochr y ffyrdd, yn arbennig cylchdaith poblogaidd Penantlliw.

Tynnwyd sylw at yr angen am fin sbwriel newydd ar waelod ffordd Bryn Caled gan fod to yr hen un wedi torri.

**2530** **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

i. Grwp Datblygu: mynychodd Huw Antur gyfarfod Zoom a drefnwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri er mwyn i Gynghorau Cymuned mynegi eu barn. Cytunwyd i Gyngor Llanuwchllyn geisio cynnal cyfarfod gyda'r swyddogion yn yr Hydref.
ii. Mynwentydd: diolchwyd i Alwyn M Roberts am glirio'r sbwriel wrth y porth. Cytunodd nifer o wirfoddolwyr i glirio gwastraff o'r fynwent gyfan pan fydd y tywydd yn caniatáu.
iii. Bioamrywiaeth: Bydd Rhodri Prys Jones yn cyfarfod gyda swyddog o'r Parc yn y dyddiau nesaf i drafod creu coedwig yn yr ardal tu cefn i'r fynwent.
iv. Nadolig: heb gyfarfod.
v. Asedau: diolchwyd i John Manzini am ei waith wrth y Cyfleusterau Cyhoeddus. Cytunwyd i enwebu ar eu gwefan y staff o Dwr Cymru a fu'n gymorth mawr wrth ddarganfod union leoliad y broblem.
vi. Cyllid: bydd Huw Antur a'r Swyddogion yn cyfarfod i ddiweddaru'r Rheolau.

**2531** **Ystyried Materion Ariannol**

**i.** Derbyniadau ac anfonebau'r mis: Diolchwyd am yr wybodaeth fanwl a e-bostiwyd, a chytunwyd i dalu fel a ganlyn:

**Anfonebau:**
Cynnal gwefan y Byrddau Gwybodaeth £200
Yswiriant £615.67
Gwaith yn y Cyfleusterau Cyhoeddus £318.50
CThEF £126.40
**Cytundebau:** £303.32; £189; £980.00

ii. Derbyniadau gwirfoddol y Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod Mehefin: £113
Cytunwyd i anfon at Gwmni Lloyds Coaches yn mynegi balchder fod gyrwyr a theithwyr yn defnyddio'r cyfleusterau'n gyson, ac yn gwahodd cyfraniad gan y Cwmni at eu rhedeg.

iii. Cais am gyfraniad at Fenter Gymunedol Llanuwchllyn: cytunwyd i wneud cyfraniad cymunedol o £5,000 o'r Cyfrif Cyfalaf gan fod darparu siop, lle bwyta a thafarn, yng nghyd a phrosiectau eraill y Fenter Gymunedol, mor bwysig i fudd a lles trigolion y gymuned.

**2532** **Cwmni Pum Plwy Penllyn** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Argymhellwyd mudiadau i gynnal cwrs Cymorth Cyntaf megis yr un a drefnwyd gan Gwmni Pum Plwy Penllyn yn ddiweddar.

**2533 Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w trafod.

**2534 Gohebiaeth:**

i. Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth am Reolwr ar gyfer Theatr Derek Williams
ii. Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth wrth i Fenter Gymunedol Llanuwchllyn geisio am grantiau.

**2535 Materion lleol y Cynghorwyr:** Dywedodd Alwyn E Jones y byddai'n trafod ymhellach gydag Ann Jones y syniad o fapio llwybrau lleol.

**2536 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/9/23 yn y Neuadd Bentref.

*Amser gorffen: 8.30pm*